Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales

British Business Bank

Adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaCh Cymru

Dadansoddiad Is-genedlaethol ac o'r Gwledydd Datganoledig

Cynnwys

Trosolwg o'r Partneriaid	3
Trosolwg o'r Prosiect	5
Trosolwg Rhanbarthol	8
Crynodeb Gweithredol	11
Dadansoddiad o'r Data	14
Crynodeb o'r Arolwg o Gyfryngwyr Cymru	38
Diolchiadau	41
Atodiad 1: Y cwestiynau a ofynnwyd a'r amrywiolion a ddadansoddwyd	42
Atodiad 2: Cafeatau methodolegol	45

Trosolwg o'r Partneriaid

Am Fanc Busnes Prydain

Banc Busnes Prydain yw banc datblygu economaidd llywodraeth y DU. Sefydlwyd y Banc ym mis Tachwedd 2014, a'i genhadaeth yw gyrru twf a ffyniant cynaliadwy ar draws y DU, a hwyluso'r broses o bontio i economi sero net trwy wella argaeledd cyllid ar gyfer busnesau llai.

Ei gylch gorchwyl yw dylunio, cyflawni a rheoli rhaglenni cyrchu cyllid ar gyfer busnesau llai ar draws y DU mewn ffordd effeithlon ar ran llywodraeth y DU. Mae rhaglenni craidd Banc Busnes Prydain yn cynorthwyo gwerth dros £12.4bn o gyllid ar gyfer dros 90,000 o fusnesau llai (ffigurau'n gywir diwedd Mawrth 2023).

Yn ogystal â chynyddu'r cyflenwad a'r amrywiaeth o gyllid sydd ar gael ar gyfer busnesau llai yn y DU trwy ei raglenni, mae'r Banc yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth am yr opsiynau cyllido sydd ar gael i fusnesau llai.

Mae ei gyhoeddiadau ymchwil blynyddol yn cynnwys Yr Adroddiad ar Farchnadoedd Cyllid i Fusnesau Bach, Y Traciwr Ecwiti i Fusnesau Bach a Thraciwr y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau.

Mae Hyb Cyllid Banc Busnes Prydain yn darparu gwybodaeth annibynnol a diduedd ar gyfer busnesau ynghylch opsiynau cyllid, gan gynnwys ffilmiau byrion, canllawiau arbenigol, rhestrau cyfeirio ac erthyglau gan ddarparwyr cyllid er mwyn eu cynorthwyo i lunio ceisiadau llwyddiannus.

Am Dirnad Economi Cymru

Cydweithrediad ymchwil unigryw rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd, Ysgol Busnes Bangor, y Ganolfan Ymchwil Menter, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yw Dirnad Economi Cymru sy'n cyfuno gwaith ymchwil economaidd ac am BBaCh.

Mae Dirnad Economi Cymru'n coladu ac yn dadansoddi data am farchnad cyllid Cymru, gan gyfoethogi dealltwriaeth am economi Cymru.

Mae ei waith ymchwil yn darparu dirnadaeth gadarn a dibynadwy am y cyflenwad a'r galw am gyllid o fewn marchnad Cymru mewn cyd-destun economaidd ehangach.

Mae Dirnad Economi Cymru'n cynhyrchu adroddiadau chwarterol, blynyddol a phwrpasol er mwyn:

- Tracio'r cyflenwad, a'r galw am gyllid ar draws Cymru
- Gwella'r ddealltwriaeth am BBaCh a'u rôl yn economi Cymru
- Creu dulliau arloesol o fesur, dehongli a thracio data am BBaCh
- Clustnodi a mynd i'r afael â bylchau mewn data cyllid BBaChau Cymru
- Gwella'r ddealltwriaeth am effaith economaidd ehangach Banc Datblygu Cymru

I gyrchu'r adroddiadau a gyhoeddwyd hyd yn hyn ac i gofrestru i dderbyn adroddiadau Dirnad Economi Cymru, cliciwch yma.

Trosolwg o'r Prosiect

Trosolwg o brosiect y Cenhedloedd Datganoledig

Mae adeiladwaith economïau isranbarthol yn gallu amrywio'n sylweddol o fewn gwlad benodol. Mae ffactorau fel lleoliad (trefol / gwledig / arfordirol), cefndir perchnogion busnesau (rhyw, oedran ac ethnigrwydd), y sylfaen o fusnesau lleol, maint / aeddfedrwydd y busnesau, a gwneuthuriad sectoraidd oll yn effeithio ar natur economïau isranbarthol. Mae'r prosiect yma'n ceisio deall i ba raddau y mae'r nodweddion gwahanol yma'n effeithio neu'n dylanwadu ar agweddau at ddefnyddio cyllid allanol ymysg y boblogaeth o BBaCh.

Trwy gefnogi Baromedr Menter Gogledd Iwerddon ers 2021, mae Banc Busnes Prydain wedi bod yn gweithio gydag Enterprise Northern Ireland i gael gwell dealltwriaeth o'r gwahaniaethau yn y gallu i gyrchu economïau cyllid ar lefel isranbarthol, a datblygu ymyraethau pwrpasol yn unol â hynny. Nod y cynllun peilot yma yw mabwysiadu dull tebyg o weithio ar draws Cymru a'r Alban, a hynny wrth gyflawni cymhariaeth o'r Cenhedloedd Datganoledig hefyd.

Trwy gyflawni arolygon Cyrchu Cyllid gyda bron i 500 o ymatebwyr sy'n BBaCh, a defnyddio cwotas er mwyn sicrhau bod y sampl yn gynrychiadol o bob gwlad ddatganoledig, mae Banc Busnes Prydain yn gweithio ochr yn ochr â Dirnad Economi Cymru, Scottish Enterprise ac Enterprise Northern Ireland i lunio tri adroddiad ar gyrchu cyllid ar gyfer y tair gwlad ar lefel is-genedlaethol. Cliciwch am adroddiadau'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Methodoleg prosiect Cymru

Yng Nghymru, cyflawnwyd gwaith maes yr arolwg gan Beaufort Research yn rhan o'r Arolwg Omnibws o'r Byd Busnes yn Hydref 2023.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn adeiladu ar 498 cyfweliad a gyflawnwyd gyda sefydliadau busnes yng Nghymru, a glustnodwyd ar sail perchnogaeth o linell ffôn busnes. Cyflawnwyd y cyfweliadau rhwng 2 a 22 Hydref 2023 gan ddefnyddio technoleg Cyfweld dros y Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur.

Roedd y gwaith maes yn targedu busnesau bach a chanolig (BBaCh), a ddiffiniwyd fel busnesau â hyd at 250 o weithwyr (llawn neu ran-amser) yn y lleoliad y cysylltwyd ag ef. Diffiniwyd cyfranogwyr cymwys fel rheolwyr, perchenogion, rheolwyr gyfarwyddwyr neu uwch reolwyr eraill oedd yn bresennol adeg cyflawni'r cyfweliad.

Dyluniwyd fframwaith samplo'r arolwg i gynrychioli'r holl sefydliadau BBaCh yng Nghymru. I'r perwyl hwn, roedd y ffrâm samplo'n cynnwys cwotas rhyng-gysylltiedig

ar weithgarwch busnes a maint o fewn y rhanbarth yn seiliedig ar gyfrifon o'r boblogaeth busnes a ddarparwyd gan Market Location. Ar ôl casglu'r data, cafodd ei bwysoli er mwyn cywiro mân amrywiadau rhwng cyfansoddiad y sampl arolygu o ran gweithgarwch busnes a maint â'r boblogaeth ehangach o BBaCh. Mae Tabl 1 isod yn dangos proffil daearyddol y sampl, gan gynnwys y targedau a'r cwotas a gyflawnwyd. Disgrifir y pedwar rhanbarth o dan sylw'n fanylach yn yr adran nesaf.

Roedd holiadur yr arolwg yn gofyn am ymatebion i wyth cwestiwn allweddol oedd yn efelychu'r cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cynllun Busnes blynyddol Banc Busnes Prydain (Atodiad 1). Ynghyd â'r rhain, roedd yn casglu gwybodaeth am amrywiaeth o nodweddion cymdeithasol-ddemograffaidd a busnes gan yr ymatebwyr, ac mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae'r Arolwg Omnibws yma'n cynnig sampl mwy o ymatebion ar gyfer Cymru nag y byddai modd ei chasglu trwy arolygon DU-eang (am fod graddfa'r gwaith maes y gall y rhain ei gyflawni mewn unrhyw genedl a rhanbarth unigol yn y DU yn fwy cyfyng). Felly, mae hyn yn cynnig cyfle digynsail i ddadansoddi'r dirwedd o ran cyllid i BBaCh yng Nghymru ar lefel fanwl iawn. Er gwaethaf maint mawr y sampl, mae'r data'n dal i fod yn amodol ar amrywiaeth o gyfyngiadau. Amlinellir y rhain yn Atodiad 2 – Cafeatau methodolegol.

Tabl 1

Cyfansoddiad y sampl o BBaCh

Rhanbarth	Targed	Cyflawnwyd	% (o 100%)	% wedi ei bwysoli
Y Gogledd	120	109	24%	22%
Y De-ddwyrain	200	192	40%	39%
Y De-orllewin	100	111	20%	22%
Y Canolbarth	80	86	16%	17%
Cyfanswm	**500**	**498***	**100%**	**100%**

*Mae'r cyfanswm yn hepgor 4 ymateb pellach â lleoliad anhysbys o ran rhanbarth.

Trosolwg Rhanbarthol



Rhannwyd y data fesul awdurdod lleol, y mae 22 ohonynt i gyd, a chawsant eu grwpio i greu isranbarthau canlynol:

Isranbarth	Awdurdod Lleol	Lliw
1. Y Gogledd	Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd – Arfon a Dwyfor yn unig	Pinc
2. Y Canolbarth	Ceredigion, Powys, Gwynedd – Meirionnydd yn unig	Melyn
3. Y De-ddwyrain	Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy, Casnewydd, Merthyr Tydfil, Torfaen, Bro Morgannwg	Oren
4. Y De-orllewin	Abertawe, Castell Nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro	Piws

1. Y Gogledd

Mae ecosystem amrywiol o BBaCh yn y Gogledd[1], sy'n cynnwys ardaloedd gwledig, trefol ac arfordirol. Rhanbarth gwledig yw hi'n bennaf, sy'n cael ei nodweddu gan sector twristiaeth lewyrchus a BBaCh mewn sectorau fel gweithgynhyrchu uwch ac ynni adnewyddadwy, ac mae cwmnïau technoleg newydd ar dwf hefyd. Mae trefi glan môr fel y Rhyl a Phrestatyn yn nodweddiadol o amrywiaeth economaidd y Gogledd, lle mae ffocws hanesyddol ar dwristiaeth yn ehangu i gynnwys masnach, diwydiant ac adwerthu[2] erbyn hyn. Nod datblygiadau fel Bargen Twf y Gogledd a chymeradwyaeth llywodraethau Cymru a'r DU i greu porthladd rhydd yn Ynys Môn yw hybu cysylltedd ac arloesi, gan feithrin cyfleoedd ar gyfer twf BBaCh a chyfoethogi'r rhagolygon ar gyfer buddsoddiad yn y rhanbarth. Yn ôl amcangyfrifon StatsCymru ar gyfer 2023 roedd tua 60,000 o BBaCh yn y Gogledd oedd yn cyflogi tua 173,000 o bobl[3].

2. Y Canolbarth

Mae'r Canolbarth[4] yn cynnig cefndir prydferth ar gyfer BBaCh, gyda chymysgedd o dirweddau gwledig a threfi bychain. Mae BBaCh y rhanbarth yn amrywio, gan gwmpasu sectorau fel amaeth, twristiaeth, ynni adnewyddadwy, a gweithgynhyrchu arbenigol, ar draws busnesau o amrywiaeth o feintiau a mathau o weithgarwch economaidd. Er bod y rhanbarth yn wynebu sialensiau o ran cysylltedd a chyrchu marchnadoedd, nod mentrau fel Bargen Twf y Canolbarth yw mynd i'r afael â bylchau mewn seilwaith a sbarduno twf economaidd. Mae BBaCh yn elwa ar rwydweithiau cefnogol fel Grŵp Gweithgynhyrchu'r Canolbarth a Champws Arloesi a Menter Prifysgol Aberystwyth. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn dangos bod y Canolbarth yn gartref i tua 27,000 BBaCh, ac yn cyflogi dros 67,000 o unigolion[5].

3. Y De-ddwyrain

Mae'r De-ddwyrain[6] yn hyb deinamig ar gyfer BBaCh, sy'n cyfuno canolfannau trefol fel Caerdydd a Chasnewydd ag ardaloedd mwy gwledig. Mae seilwaith cadarn yn y rhanbarth gyda chysylltiadau da o ran cludiant cyhoeddus. O'u cyfuno, mae Caerdydd a Chasnewydd yn ffurfio un o ddau glwstwr sy'n cael eu harwain gan arloesi, fel y clustnododd Traciwr y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau 2023 Banc Busnes Prydain. Gyda chyfran fawr o gwmnïau sy'n cael eu harwain gan arloesi'n chwilio am grantiau a chyllid ecwiti i gynorthwyo gwaith ymchwil a datblygu, cwmnïau deillio sydd i gyfrif am dipyn sylweddol o'r gweithgarwch ecwiti. Mae sefydliadau fel Prifysgol Caerdydd a mentrau fel Rhaglen Twf Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynorthwyo arloesi ac entrepreneuriaeth. Yn 2023, roedd gan y De-ddwyrain tua 104,000 o BBaCh, a oedd yn cyflogi dros 32,000 o bobl[7].

4. Y De-orllewin

Mae'r De-orllewin[8] yn cynnig cymysgedd o swyn glan môr a threftadaeth ddiwydiannol, sy'n meithrin ecosystem amrywiol o BBaCh. Mae sectorau traddodiadol fel amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu'n cyd-fodoli â diwydiannau newydd fel y gwyddorau bywyd, technoleg forwrol, ac ynni adnewyddadwy. Mae Abertawe, sy'n un o ddau glwstwr sy'n cael eu harwain gan arloesi yn ôl Traciwr Cenhedloedd a Rhanbarthau 2023, yn llywio arloesi ac entrepreneuriaeth yn y rhanbarth. Mae cyfran fawr o'r cwmnïau sy'n cael eu llywio gan arloesi yn Abertawe'n chwilio am grantiau ac ecwiti i gynorthwyo ymchwil a datblygu. Nod mentrau fel Bargen Ddinesig Bae Abertawe yw hybu arloesi a seilwaith, tra bod y Porthladd Rhydd Celtaidd yn canolbwyntio ar dwf economaidd, sgiliau'r dyfodol a gweithgynhyrchu yn y De-orllewin. Gyda rhyw 55,000 o BBaCh yn y rhanbarth yn 2023, yn cyflogi dros 156,000 o unigolion, mae'r De-orllewin yn parhau i esblygu fel hyb ar gyfer entrepreneuriaeth ac arloesi[9].

Crynodeb Gweithredol

Canfyddiadau Cymru

Nododd bron i hanner (49%) BBaCh Cymru eu bod yn defnyddio cyllid. Ymysg y rhai mwy o faint yn nhermau trosiant/nifer y gweithwyr; ym meysydd cyfanwerthu/adwerthu; sy'n disgwyl twf sylweddol; ac a sefydlwyd llai nag 20 mlynedd yn ôl y gwelwyd y defnydd uchaf o gyllid.

Roedd un ym mhob pump wedi profi rhwystrau i gyrchu cyllid. Soniodd cyfran debyg o'r busnesau am yr amser y mae'n ei gymryd/cymhlethdod ymgeisio, y gallu i gael/ad-dalu cyllid, a chanfyddiadau/perthnasau gwael â darparwyr.

Roedd mwy na naw ym mhob deg (92%) yn teimlo bod lefel cyfredol eu dyled yn hydrin, gyda'r busnesau mwy a'r rhai a sefydlwyd llai nag 20 mlynedd yn ôl yn fwy tebygol o ddweud hynny.

Bydd ar tua 16% angen cyllid ychwanegol dros y flwyddyn nesaf. Roedd mwy na chwech ym mhob deg (61%) o'r rhain yn rhagweld y byddent yn defnyddio benthyciadau. Roedd busnesau â throsiant o dros £500k a 10+ o weithwyr yn fwy tebygol o ddweud hyn.

O'r rhai a oedd yn rhagweld y byddent yn cyrchu cyllid, roedd 51% yn bwriadu defnyddio'r cyllid ar gyfer gwariant cyfalaf, a 43% ar gyfer cyfalaf gweithio. Soniwyd am ddefnyddiau eraill, fel gwaith ymchwil/gwella prosesau/cynnal-a-chadw sylweddol (14%), cynaliadwyedd amgylcheddol (14%), ac ail-gyllido neu reoli dyledion cyfredol (12%).

Roedd 65% yn teimlo'n hyderus am ddiogelu cyllid. Roedd lefelau uchel o hyder ymysg busnesau mwy a/neu'r rhai oedd yn disgwyl aros yn sefydlog dros y flwyddyn nesaf. Roedd hyder ar ei isaf ymysg y busnesau iau, y rhai oedd yn disgwyl perfformio'n wael dros y flwyddyn nesaf, a busnesau sy'n chwilio am rhwng £10k-50k.

Roedd bron i chwech ym mhob deg (58%) yn disgwyl gweld perfformiad sefydlog dros y flwyddyn nesaf, 22% yn disgwyl twf, 9% yn disgwyl crebachiad a 7% yn disgwyl amodau masnachu anodd/perygl o gau. Roedd busnesau mwy ac iau yn fwy tebygol o ragweld twf. Unig fasnachwyr a busnesau yn y sectorau primaidd neu gyfanwerthu/adwerthu oedd y rhai oedd yn disgwyl crebachiad neu anawsterau masnachu/perygl o gau.

Nododd bron i hanner BBaCh Cymru **(49%)** eu bod yn defnyddio cyllid

Roedd

1 mewn 5

wedi profi rhwystrau wrth gyrchu cyllid

Bydd

16%

angen cyllid ychwanegol dros y flwyddyn nesaf

Roedd

65%

o'r rhai oedd angen cyllid yn teimlo'n hyderus am ei ddiogelu

Canfyddiadau is-genedlaethol

Nid oedd y defnydd o gyllid allanol yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru ac eithrio mewn dau achos. Yn gyntaf, roedd gorddrafftiau busnes yn fwy poblogaidd yn y Gogledd a'r Canolbarth. Yn ail, roedd defnydd o gyllid anfonebu'n fwy cyffredin yn y De-ddwyrain ac yn llai cyffredin yn y Gogledd.

Roedd pedwar rhanbarth Cymru'n led debyg yn nhermau eu rhagolygon ar gyfer twf, ond roedd busnesau yn y De-orllewin yn fwy tebygol o fod angen dros £250k o gyllid ychwanegol.

Busnesau yn y De-ddwyrain oedd fwyaf tebygol o fod yn defnyddio cyllid anfonebu

Roedd busnesau yn y Gogledd a'r Canolbarth yn fwy tebygol o fod yn defnyddio gorddrafftiau busnes

Cymharu'r Gwledydd Datganoledig

Roedd defnydd o gyllid yn uwch yng Ngogledd Iwerddon (56%) a'r Alban (62%) nac yng Nghymru (49%). Roedd y defnydd o gardiau credyd ymysg busnesau Cymru'n isel o gymharu â'r Alban. Roedd Cymru (20%) yn debyg i Ogledd Iwerddon (21%) o ran y gyfran o BBaCh sy'n wynebu rhwystrau i gyllid, ond yn is na'r Alban (38%).

Roedd canfyddiadau busnesau am ba mor hydrin oedd eu dyledion cyfredol yn weddol gyson ar draws y tair gwlad datganoledig.

Roedd lefel y BBaCh sydd angen cyllid ychwanegol dros y flwyddyn nesaf (16%) yn sylweddol is yng Nghymru, ond gan y rhain oedd y gyfran uchaf oedd yn rhagweld y byddent yn defnyddio benthyciadau busnes.

Roedd BBaCh Cymru'n debyg i'r rhai yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban o ran at ba y dibenion yr oeddent yn bwriadu defnyddio'r cyllid ychwanegol, ac eithrio o ran buddsoddi mewn gwaith ymchwil / gwella prosesau / cynnal a chadw sylweddol, oedd yn is o lawer.

Roedd hyder o ran diogelu'r cyllid ychwanegol ar lefel debyg yng Nghymru a'r Alban, ac yn uwch nac yng Ngogledd Iwerddon.

Roedd cyfran uwch yng Nghymru'n disgwyl aros yn sefydlog dros y flwyddyn nesaf, ac roedd y gyfran oedd yn disgwyl twf yn is. Roedd gan Gymru gyfran gweddol debyg o BBaCh oedd yn disgwyl gweld perfformiad negyddol.

Roedd defnydd o gyllid yn uwch yng Ngogledd Iwerddon **(56%)** a'r Alban **(62%)** nac yng Nghymru **(49%)**

Bydd ar gyfran is o BBaCh yng Nghymru **(16%)** angen cyllid ychwanegol dros y flwyddyn nesaf nac yn yr Alban **(39%)** a Gogledd Iwerddon **(38%)**



Dadansoddiad o'r Data

1. Defnydd o gyllid allanol
2. Rhwystrau i gyllid allanol
3. Hydrinedd dyledion
4. Anghenion o ran cyllid at y dyfodol
5. Anghenion o ran cyllid at y dyfodol (math)
6. Anghenion o ran cyllid at y dyfodol (pwrpas)
7. Anghenion o ran cyllid at y dyfodol (hyder)
8. Disgwyliadau o ran perfformiad y busnes

1. Defnydd o gyllid allanol

Mae'r canlyniadau'n dangos bod 49% o BBaCh Cymru'n defnyddio cyllid allanol[10] adeg cyflawni'r arolwg (Ffigur B1.1). Nid oedd y mân wahaniaethau a welwyd ar draws pedwar rhanbarth Cymru'n arwyddocaol yn ystadegol.

Ffigur B1.1

Defnydd o gyllid allanol ymysg busnesau yng Nghymru, fesul rhanbarth

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cyfanswm Cymru), 120 (Y Gogledd) 169 (Y De-ddwyrain), 114 (Y De-orllewin), 95 (Y Canolbarth).



Yn y cyfamser, mae'r lefelau defnydd ar gyfer mathau o gyllid allanol yn dangos ambell i amrywiad sy'n arwyddocaol yn ystadegol ar draws y BBaCh mewn gwahanol ranbarthau o Gymru (Ffigur B1.2).

Roedd gorddrafftiau busnes yn arbennig o boblogaidd ymysg BBaCh y Gogledd a'r Canolbarth. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu cyfansoddiad y busnesau bach yn y rhanbarthau hyn, sydd wedi ei nodweddu gan fwy o fusnesau a sefydlwyd dros 30 mlynedd yn ôl, a chrynhoad uwch o sectorau gweithgarwch busnes "traddodiadol", fel amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu a chroeso. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau arolwg Banc Busnes Prydain o gyfryngwyr (gweler y Crynodeb o'r Arolwg o Gyfryngwyr Cymru am fanylion) lle gwelwyd bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth amlwg am opsiynau cyllid nad ydynt yn fanciau ar draws Cymru, ac yn arbennig ym maes amaethyddiaeth yn y Canolbarth.

Ffigur B1.2

Defnydd o gyllid allanol ymysg busnesau yng Nghymru, fesul rhanbarth a fesul math o gyllid

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cyfanswm Cymru), 109 (Y Gogledd), 192 (Y De-ddwyrain), 111 (Y De-orllewin), 86 (Y Canolbarth).



*Mae cydberthyniad sylweddol ar lefel 0.05
**Mae cydberthyniad sylweddol ar lefel 0.01

Mae'r gyfran o BBaCh sy'n defnyddio mathau eraill o gyllid – fel grantiau neu gyllid asedau/anfonebu/ecwiti - yn is o lawer (5% neu lai) ym mhob rhanbarth yng Nghymru; ymysg y rhain, mae yna amrywiadau yn y patrymau o ran cyllid anfonebu ar draws y pedwar rhanbarth, a busnesau yn y De-ddwyrain a'r Gogledd (yn y drefn honno) sydd fwyaf a lleiaf tebygol o ddefnyddio cyllid o'r math yma. Mae'r defnydd o gyllid asedau a grantiau'n amlycach yn y De-orllewin a'r Canolbarth, a hynny efallai oherwydd y crynodiadau uwch o sectorau sy'n dueddol o fod yn fwy addas ar gyfer cyllid o'r mathau hyn (fel amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu).

O'r tair gwlad datganoledig yn y DU, gan Gymru oedd y gyfran isaf o fusnesau sy'n defnyddio unrhyw fath o gyllid allanol (Ffigur B1.3) adeg cyflawni'r arolwg. Heblaw am ambell i eithriad (a drafodir isod), roedd gan fusnesau Cymru gyfraddau defnydd is o lawer na'r Alban ar gyfer y mwyafrif o fathau o gyllid ar y cyfan, a chyfraddau defnydd mwy tebyg (er yn is o hyd) o gymharu â Gogledd Iwerddon (Ffigur B1.4).

Roedd y defnydd o gardiau credyd ymysg busnesu yng Nghymru ychydig bach yn uwch na busnesau Gogledd Iwerddon, ond roedd y ddwy wlad yn is na'r Alban, a ddangosodd defnydd arbennig o uchel o gardiau credyd gyda 30%. Yr unig fathau eraill o gyllid lle dangosodd Cymru batrymau gwahanol i'r ddwy wlad datganoledig eraill oedd benthyciadau. Yn benodol, roedd cyfran is o lawer o fusnesau yng Nghymru'n defnyddio benthyciadau Covid-19 na Gogledd Iwerddon. Roedd defnydd o gynhyrchion benthyciadau eraill yn llai cyffredin ymysg busnesau yng Nghymru na'u tebyg yn yr Alban.

Ymhlith y nodweddion busnes sy'n gysylltiedig â defnydd uwch o gyllid allanol ar draws Cymru mae:

- **Nifer uwch o weithwyr / trosiant uwch:** Roedd busnesau â mwy na 10 o weithwyr neu drosiant o dros £500k y flwyddyn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio o leiaf un ffynhonnell o gyllid allanol, yn ogystal â chyllid anfonebu a chyllid asedau yn benodol, na busnesau llai. Roedd busnesau â rhwng dau a naw o weithwyr yn fwy tueddol o ddweud eu bod yn defnyddio cyllid anfonebu. Yn gyferbyniol, roedd unig fasnachwyr yn llai tebygol o ddefnyddio unrhyw fath o gyllid o gwbl, na sawl un o'r mathau o gyllid y mae busnesau mwy yn dewis eu defnyddio ar y cyfan (fel cyllid asedau a grantiau). Mae'r busnesau yn y band uchaf o ran trosiant (dros £500k) eto'n fwy tueddol o ddefnyddio mathau penodol o gyllid fel cyllid anfonebu, cyllid asedau, cardiau credyd, cyllid ecwiti a grantiau.

Ffigur B1.3

Defnydd o gyllid allanol ymysg busnesau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cymru), 695 (Gogledd Iwerddon), 500 (Yr Alban).



- **Disgwyl twf sylweddol:** Roedd y BBaCh yng Nghymru oedd yn disgwyl tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn nesaf yn dueddol o ddangos defnydd uwch o gyllid yn gyffredinol, a benthyciadau (Covid-19 neu fenthyciadau eraill) a chyllid anfonebu'n benodol.
- **Cyfanwerthu/adwerthu:** roedd busnesau sy'n gweithredu yn y sector hwn yn fwy tueddol o ddefnyddio cyllid allanol na'u tebyg mewn sectorau eraill, ac yn arbennig benthyciadau (Covid-19 neu fenthyciadau arall). Yn gyferbyniol, roedd gan westai a gwasanaethau eraill lai o archwaeth i ddefnyddio cyllid allanol ar y cyfan, ac am fathau penodol o gyllid fel gorddrafftiau, cardiau credyd a chyllid asedau (er eu bod yn dueddol o ddefnyddio grantiau'n fwy na sectorau eraill). Roedd y patrymau'n fwy cymysg i'r sectorau primaidd a busnesau adeiladu/trafnidiaeth. Er eu bod nhw'n fwy tebygol o ddefnyddio mathau penodol o gyllid fel cyllid asedau ac anfonebu (yn y drefn honno) roedden nhw'n llai tebygol o ddefnyddio cynnyrch benthyciadau, a doedd yna ddim patrwm oedd yn ystadegol arwyddocaol yn nhermau'r defnydd o gyllid yn gyffredinol.
- **Wedi eu sefydlu'n fwy diweddar:** roedd busnesau a sefydlwyd llai nac 20 mlynedd yn ôl yn arbennig o debygol o ddweud eu bod yn defnyddio benthyciadau Covid-19.

Ffigur B1.4

Defnydd o gyllid allanol ymysg busnesau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fesul math o gyllid

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cymru), 695 (Gogledd Iwerddon), 500 (Yr Alban).



2. Rhwystrau i gyllid allanol

Fel y mae Ffigur B2.1 yn ei ddangos, nododd un busnes ym mhob pump (20%) yng Nghymru eu bod wedi wynebu rhwystrau wrth gyrchu cyllid, gyda gweddill yr ymatebwyr yn dweud “Dim” (52%), “Dim angen cyllid/amherthnasol” (24%) neu “Ddim yn gwybod” (4%). Nid oedd safbwyntiau BBaCh i’r rhwystrau allweddol i gyrchu cyllid yn wahanol mewn ffordd sy’n arwyddocaol yn ystadegol ar draws pedwar rhanbarth Cymru.

Roedd ymatebion y busnesau a oedd yn cytuno eu bod wedi wynebu rhwystrau i gyrchu cyllid yn ymwneud â 19 thema gwahanol. I symleiddio’r dehongliad, mae ein dadansoddiad yn grwpio’r rhain yn chwe thema ehangach, a gyflwynir yn Ffigur B2.2.

Ffigur B2.1

Rhwystrau i gyrchu cyllid allanol ymysg busnesau yng Nghymru, fesul rhanbarth

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cyfanswm Cymru), 120 (Y Gogledd) 169 (Y De-ddwyrain), 114 (Y De-orllewin), 95 (Y Canolbarth).



O'r rhain, y rhai a nodwyd amlaf gan fusnesau ar draws Cymru oedd:

- **Amser/cymhlethdod ceisiadau am gyllid (26%):** roedd y thema hon yn cyfuno'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â'r ymdrech sydd ynghlwm wrth geisio cyllid ar gyfer busnesau bach, gan gynnwys: biwrocratiaeth/gwaith papur/rhy gymhleth/gofyn am ormod o wybodaeth; amser/cymryd yn rhy hir; anawsterau gyda bancio/ceisiadau ar lein.
- **Y gallu i gael/ad-dalu cyllid (26%):** roedd y rhwystrau allweddol o dan y thema hon yn ymwneud â diffyg hyder i gaffael neu ad-dalu cyllid, a hynny'n nodweddiadol oherwydd nodweddion/perfformiad y busnes neu am eu bod wedi cael eu gwrthod yn y gorffennol. Mae'r rhain yn cwmpasu: cyfraddau llog (uchel); anghymwyster/gwrthod; problemau gyda gorddrafft; problemau sy'n gysylltiedig â bod yn hunangyflogedig; llif arian/ trosiant anghyson; anodd i gwmni bach/ trosiant isel.

Ffigur B2.2

Rhwystrau i gyrchu cyllid allanol ymysg busnesau yng Nghymru, fesul rhanbarth a thema

Maint y samplau heb eu pwysoli: 101 (Cyfanswm Cymru), 25 (Y Gogledd), 37 (Y De-ddwyrain), 26 (Y De-orllewin), 13 (Y Canolbarth).



– **Canfyddiadau/perthnasau gwael â darparwyr cyllid (23%):** roedd y rhwystrau allweddol a enwyd yn y cyd-destun hwn yn ymwneud â chanfyddiadau negyddol neu brofiadau blaenorol o ryngweithio â darparwyr cyllid, fel: diffyg banciau (lleol)/banciau'n cau/methu gweld rheolwr/siarad wyneb yn wyneb; amharodrwydd i fenthyca/diffyg cyllid; diffyg cyfathrebu; sylwadau negyddol cyffredinol am fanciau (amharod i helpu, diffyg gwybodaeth ac ati).

Soniodd cyfran lai o ymatebwyr am fathau eraill o rwystrau hefyd (17% yng Nghymru i gyd). Roedd y rhwystrau hyn yn ymwneud â diffyg ymwybyddiaeth neu argaeledd opsiynau/cymorth ariannol (10%) ac effaith gadarnhaol/negyddol benthyciadau Covid-19 ar eu harchwaeth am gyllid pellach (6%).

Roedd Cymru'n debyg i Ogledd Iwerddon yn nhermau'r gyfran o BBaCh oedd yn nodi unrhyw rwystrau i gyllid allanol (Ffigur B2.3). Sgoriodd y ddwy wlad yn is o lawer ar y dimensiwn yma na'r Alban, lle'r oedd cyfran sylweddol uwch o fusnesau'n gallu clustnodi un rhwystr neu ragor (38% o gymharu ag 20% yng Nghymru a 21% yng Ngogledd Iwerddon).

Ffigur B2.3

Rhwystrau i gyrchu cyllid allanol ymysg busnesau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cymru), 695 (Gogledd Iwerddon), 500 (Yr Alban).



Wedi dweud hynny, nid oedd patrymau'r ymatebion gan fusnesau a oedd wedi nodi o leiaf un rhwystr yn sylweddol wahanol ar draws y tair gwlad (Ffigur B2.4).

Ffigur B2.4

Rhwystrau i gyrchu cyllid allanol ymysg busnesau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, fesul thema

Maint y samplau heb eu pwysoli: 101 (Cymru), 109 (Gogledd Iwerddon), 191 (Yr Alban).



3. Hydrinedd dyledion

Gofynnwyd y cwestiwn yma i holl ymatebwyr yr arolwg. Rhoddwyd y cyfle i'r rheiny nad oeddent yn defnyddio cyllid dyledion adeg y cyfweliad i ddewis opsiwn pwrpasol ("does dim dyled gan y busnes"). Er mwyn caniatáu ar gyfer cymhariaeth gliriach, yn Ffigur 3.1 rydyn ni wedi tynnu'r grŵp olaf yma o'n cyfrifiadau, gan fynegi'r canlyniadau fel cyfran o'r holl ymatebwyr a nododd fod dyled ganddynt adeg cyflawni'r arolwg.

Ffigur B3.1

Canfyddiadau am ba mor hydrin yw lefelau dyledion cyfredol ymysg busnesau yng Nghymru, fesul rhanbarth

Maint y samplau heb eu pwysoli: 262 (Cyfanswm Cymru), 59 (Y Gogledd), 92 (Y De-ddwyrain), 55 (Y De-orllewin), 56 (Y Canolbarth).



Yn ôl y data yma, llai nag un busnes ym mhob deg (8%) ar draws Cymru oedd yn teimlo bod lefel gyfredol eu dyled yn anhydrin, ac nid oedd unrhyw amrywiad ystadegol sylweddol ar draws gwahanol ranbarthau Cymru (Ffigur B3.1). Roedd y gyfran hon yn led gyson â gwledydd datganoledig eraill y DU (Ffigur B3.2). Diddorol oedd nodi bod canfyddiad gan fwy na dau draean o'r rhanddeiliaid yn Arolwg Cyfryngwyr 2023 nad oedd busnesau wedi eu taclu'n dda i leihau baich eu dyled, sydd efallai'n awgrymu taw'r mathau o fusnesau oedd angen cymorth ac arweiniad ychwanegol oedd y rhai a oedd yn ymgysylltu â'r cyfryngwyr.

Ymhlith nodweddion y busnesau a nododd ganfyddiadau mwy cadarnhaol am hydrinedd dyledion roedd:

- **Maint mwy yn nhermau nifer y gweithwyr / trosiant:** roedd y busnesau yn y bandiau trosiant uchaf (dros £500k) ac o ran cyflogaeth (10+ o weithwyr) yn fwy tebygol o ddweud bod eu dyled yn hydrin. Y gwrthwyneb sy'n wir am fusnesau â throsiant o lai na £100k.
- **Wedi eu sefydlu'n fwy diweddar:** roedd busnesau a sefydlwyd llai nag 20 mlynedd yn ôl yn fwy tueddol o weld lefel gyfredol eu dyled yn hydrin, ac roedd y gwrthwyneb yn wir am y rhai a sefydlwyd dros 40 mlynedd yn ôl.
- **Timau rheoli hollol wrywaidd:** roedd y busnesau hyn yn sylweddol llai tebygol o weld lefel gyfredol eu dyledion yn anhydrin.

Yn gyferbyniol, roedd nodweddion fel gweithredu mewn sectorau primaidd (h.y. amaethyddiaeth, mwyngloddio, y cyfleustodau) yn gwneud busnesau'n fwy tueddol o ddweud bod lefel eu dyled yn "anhydrin iawn" (er, fel y nodwyd uchod, ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn teimlo fel hyn ar y cyfan).

Ffigur B3.2

Canfyddiadau am ba mor hydrin yw lefel gyfredol dyledion ymysg busnesau yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban

Maint y samplau heb eu pwysoli: 262 (Cymru), 427 (Gogledd Iwerddon), 359 (Yr Alban).



4. Anghenion o ran gyllid at y dyfodol

Nododd tua 16% o BBaCh ar draws Cymru y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt dros y 12 mis nesaf, ac nid oes yna unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar draws gwahanol ranbarthau Cymru (Ffigur B4.1).

Roedd y cwestiwn yn cwmpasu faint o gyllid ychwanegol y gallai fod ei angen ar fusnesau hefyd, a hynny ar sail chwe band. Yn y dadansoddiad isod, cyfunwyd y chwe band yma'n dri er mwyn hybu maint y sampl ar gyfer pob opsiwn ac er mwyn sicrhau cysondeb â phatrwm yr ymatebion a gafwyd.

Ffigur B4.1

Y gyfran o BBaCh yng Nghymru sy'n rhag-weld y bydd arnynt angen cyllid ychwanegol dros y flwyddyn nesaf, fesul rhanbarth

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cyfanswm Cymru), 120 (Y Gogledd) 169 (Y De-ddwyrain), 114 (Y De-orllewin), 95 (Y Canolbarth).



Ar y cyfan, nododd y mwyafrif o'r busnesau yng Nghymru bod arnynt angen £50k neu lai o gyllid ychwanegol, ond amcangyfrifodd dros chwarter y byddai angen rhwng £50k a £250k arnynt; a llai nag 1 ym mhob 10 a nododd y byddai angen mwy o gyllid ychwanegol na hynny arnynt (Ffigur B4.2). Ar draws y pedwar rhanbarth a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn, y
De-orllewin oedd yr unig un i ddangos gwahaniaethau sy'n arwyddocaol o wahanol yn ystadegol i weddill Cymru o ran y band uchaf. Yn benodol, roedd busnesau yn y De-orllewin yn fwy tebygol o ddweud y byddai angen mwy na £250k arnynt na'u tebyg yng ngweddill Cymru; er y gwelir gwahaniaethau eraill ar draws y pedwar rhanbarth mewn bandiau eraill, nid oedd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol.

Roedd busnesau mwy (y rhai â 10+ o weithwyr a / neu drosiant o dros £500k) yn fwy tebygol o nodi gofynion uwch o ran cyllid allanol (£50k ac uwch). Roedd busnesau gweithgynhyrchu'n arbennig o dueddol o fod yn chwilio am gyllid ychwanegol rhwng £50k-£100k.

Ffigur B4.2

Maint gofynion ariannol BBaCh yng Nghymru sy'n rhag-weld y bydd arnynt angen cyllid ychwanegol dros y flwyddyn nesaf, fesul rhanbarth

Maint y samplau heb eu pwysoli: 84 (Cyfanswm Cymru), 17 (Y Gogledd), 32 (Y Gogledd-ddwyrain), 21 (Y Gogledd-orllewin), 14 (Y Canolbarth).



*Mae cydberthyniad sylweddol ar lefel 0.05

O gymharu â gwledydd datganoledig eraill y DU, roedd y gyfran gyffredinol o BBaCh oedd yn disgwyl y byddai angen cyllid ychwanegol arnynt dros y 12 mis nesaf yn sylweddol is yng Nghymru (Ffigur B4.3). Gellir gweld gwahaniaethau hefyd o ran faint o gyllid ychwanegol oedd ei angen, yn arbennig yn achos Gogledd Iwerddon, lle'r oedd busnesau'n llai tebygol o ddweud eu bod yn rhagweld y byddai angen iddynt gyrchu mwy na £50k na Chymru neu'r Alban (Ffigur B4.4).

Ffigur B4.3

Y gyfran o BBaCh yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n rhag-weld y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt dros y flwyddyn nesaf

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cymru), 673 (Gogledd Iwerddon), 498 (Yr Alban).



Ffigur B4.4

Maint gofynion ariannol BBaCh yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n rhag-weld y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt dros y flwyddyn nesaf

Maint y samplau heb eu pwysoli: 84 (Cymru), 377 (Gogledd Iwerddon), 193 (Yr Alban).



5. Anghenion o ran cyllid at y dyfodol (math)

Roedd pedwar rhanbarth Cymru'n led debyg yn nhermau eu dewisiadau o ran mathau o gyllid i fodloni eu hanghenion cyllido at y dyfodol. Roedd mwy na chwech ym mhob deg o'r busnesau yng Nghymru oedd ag anghenion cyllid ychwanegol dros y 12 mis nesaf yn rhagweld y byddent yn cyrchu cynhyrchion benthyciadau (Ffigur B5.1).

Roedd grantiau a gorddrafftiau busnes yn gymharol boblogaidd hefyd o gymharu â mathau eraill o gyllid, ond cyfran is o fusnesau a soniodd am y rhain (26% ac 17% yn y drefn honno).

Cardiau credyd a chyllid asedau/anfonebu/ecwiti oedd dewis llai na 10% o fusnesau. Roedd rhai rhanbarthau'n sefyll ar wahân i'r lleill o ran eu cyfraddau uchel o ddefnydd o rai o'r mathau o gyllid; er enghraifft, roedd gan y Canolbarth gyfran eithriadol o uchel o fusnesau oedd yn rhagweld y byddent yn cyrchu cyllid ecwiti neu fathau eraill o fuddsoddiad allanol. Fodd bynnag, nid oedd y gwerthoedd hyn yn amrywio mewn ffordd oedd yn arwyddocaol yn ystadegol ar draws y rhanbarthau.

Roedd **busnesau heb gyflogeion** yn fwy tebygol na busnesau mwy o ragweld y byddent yn defnyddio cardiau credyd, ac roedd gan fusnesau **gweithgynhyrchu** fwy o archwaeth ar gyfer grantiau na'u tebyg mewn sectorau eraill.

Ffigur B5.1

Y mathau o gyllid a geisir gan BBaCh yng Nghymru sy'n rhag-weld y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt dros y flwyddyn nesaf, fesul rhanbarth

Maint y samplau heb eu pwysoli: 84 (Cyfanswm Cymru), 17 (Y Gogledd), 32 (Y Gogledd-ddwyrain), 21 (Y Gogledd-orllewin), 14 (Y Canolbarth).



O gymharu â'u tebyg yng ngwledydd datganoledig eraill y DU, roedd BBaCh Cymru'n fwy tueddol o ragweld y byddent yn cyrchu benthyciadau busnes i fodloni eu hanghenion cyllid dros y flwyddyn nesaf, ac yn llai tueddol o ddefnyddio cardiau credyd at y diben hwn (Ffigur B5.2).

Ffigur B5.2

Y mathau o gyllid a geisir gan BBaCh yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n rhag-weld y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt dros y flwyddyn nesaf

Maint y samplau heb eu pwysoli: 84 (Cymru), 377 (Gogledd Iwerddon), 193 (Yr Alban).



6. Anghenion o ran cyllid at y dyfodol (pwrpas)

Roedd safbwyntiau busnesau ym mhedwar rhanbarth Cymru'n weddol debyg o ran sut roedden nhw'n bwriadu defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol oedd ei angen, o ran nad oedd eu hymatebion yn dangos gwahaniaethau arwyddocaol yn nhermau ystadegol ar draws y wlad (Ffigur B6.1).

Ar draws Cymru gyfan, ychydig dros hanner (51%) oedd yn bwriadu ei ddefnyddio at ddibenion gwariant cyfalaf, ac roedd pedwar ym mhob deg (43%) yn bwriadu ei ddefnyddio at ddibenion cyfalaf gweithio. Soniodd 14% o'r ymatebwyr am ddefnyddiau cynlluniedig eraill, fel buddsoddi mewn gwaith ymchwil/i wella prosesau/cynnal-a-chadw sylweddol, ac mewn gweithgarwch oedd yn ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol, gyda chyfran ychydig bach yn llai (12%) yn sôn am ail-gyllido neu reoli dyledion cyfredol hefyd.

Nid oedd yna unrhyw batrymau arwyddocaol yn ystadegol i'r cwestiwn yma o ran gwahanol sectorau gweithgarwch,

Ffigur B6.1

Y defnydd cynlluniedig o gyllid gan BBaCh yng Nghymru sy'n rhag-weld y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt dros y flwyddyn nesaf, fesul rhanbarth

Maint y samplau heb eu pwysoli: 84 (Cyfanswm Cymru), 17 (Y Gogledd), 32 (Y Gogledd-ddwyrain), 21 (Y Gogledd-orllewin), 14 (Y Canolbarth).



gweithwyr/trosiant ac oedran y busnes. Ond mae'r data'n dangos fod y busnesau â gofynion gweddol fawr o ran cyllid ychwanegol (£100k-250k) yn fwy tebygol o ddefnyddio'r cyllid ychwanegol at ddibenion buddsoddi.

Roedd BBaCh Cymru'n led debyg i'w tebyg yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban yn nhermau eu bwriadau ar gyfer unrhyw gyllid ychwanegol a geisir, heblaw yn achos buddsoddi mewn gwaith ymchwil/gwella prosesau/gwaith cynnal-a-chadw sylweddol, a ddewiswyd gan gyfran is o lawer o ymatebwyr yng Nghymru nac yng ngwledydd datganoledig eraill y DU (Ffigur B6.2).

Ffigur B6.2

Y defnydd cynlluniedig o gyllid gan BBaCh yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n rhag-weld y bydd angen cyllid arnynt dros y flwyddyn nesaf

Maint y samplau heb eu pwysoli: 84 (Cymru), 377 (Gogledd Iwerddon), 193 (Yr Alban).



7. Anghenion o ran cyllid at y dyfodol (hyder)

Nid oedd hyder BBaCh wrth gyrchu cyllid ychwanegol ar draws pedwar rhanbarth Cymru'n wahanol iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol, ac eithrio yn y De-orllewin; lle'r oedd hi'n nodedig fod cyfran lai o lawer o fusnesau'n dweud "nad oeddent yn hyderus" y byddent yn cael cyllid, o gymharu â gweddill Cymru (Ffigur B7.1).

Ffigur B7.1

Hyder BBaCh yng Nghymru sy'n rhag-weld y bydd ei angen dros y flwyddyn nesaf, fesul rhanbarth wrth gyrchu cyllid ychwanegol

Maint y samplau heb eu pwysoli: 84 (Cyfanswm Cymru), 17 (Y Gogledd), 32 (Y Gogledd-ddwyrain), 21 (Y Gogledd-orllewin), 14 (Y Canolbarth).



O blith yr holl ranbarthau, y Canolbarth oedd â'r lefelau isaf o hyder. Roedd lefelau hyder ar draws Cymru[11] yn led debyg i'r Alban, tra bod Gogledd Iwerddon y tu ôl i'r gwledydd datganoledig eraill o ran y mesur hwn (Ffigur B7.2).

Ar draws Cymru gyfan, yn gyffredinol roedd **busnesau mwy** (yn nhermau nifer y gweithwyr/trosiant) yn dangos mwy o hyder yn eu gallu i gael y cyllid ychwanegol yr oedd ei angen arnynt, a'r rhai sy'n disgwyl aros yn sefydlog dros y 12 mis nesaf hefyd.

Yn gyferbyniol, **y busnesau oedd yn chwilio am symiau llai o gyllid**, rhwng £10k-50k, oedd â'r hyder isaf yn eu gallu i gyrchu cyllid allanol. Mae hyn yn gyson â chanfyddiad y rhanddeiliaid nad yw cyflenwadau o gyllid o dan £100k ar gael mor hwylus, a'i fod yn anos ei gyrchu. Yn yr Arolwg o Gyfryngwyr, roedd yna ganfyddiad bod y bylchau mewn cyllid ar eu hamlycaf wrth gyrchu ecwiti cyfnod cynnar (65%). Mae'r unig batrwm sectoraidd a ganfuwyd yn ymwneud â **busnesau cyllid/gwasanaethau busnes** a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn hyderus ynghylch diogelu'r cyllid ychwanegol oedd eu hangen na busnesau eraill ar y cyfan.

Roedd lefelau isel o hyder yn amlwg hefyd ymysg y **busnesau iau** (y rhai a sefydlwyd llai nag 20 mlynedd yn ôl), yn ogystal â busnesau oedd yn disgwyl bod yn masnachu ag anhawster neu dan berygl o gau dros y 12 mis nesaf.

Ffigur B7.2

Hyder BBaCh yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n rhag-weld y bydd ei angen dros y flwyddyn nesaf wrth gyrchu cyllid ychwanegol

Maint y samplau heb eu pwysoli: 84 (Cymru), 377 (Gogledd Iwerddon), 193 (Yr Alban).



8. Disgwyliadau o ran perfformiad y busnes

Nid oedd disgwyliadau cyffredinol BBaCh o ran perfformiad eu busnes dros y flwyddyn nesaf yn arwyddocaol o wahanol yn ystadegol ar draws pedwar rhanbarth Cymru. Ar lefel genedlaethol, roedd bron i chwe busnes ym mhob deg yn disgwyl gweld sefydlogrwydd, ac ychydig dros ddau ym mhob deg yn disgwyl gweld twf, a'r gweddill yn disgwyl crebachiad neu amodau masnachu anodd/perygl o gau (Ffigur 8.1).

Ffigur B8.1

Perfformiad disgwyliedig BBaCh yng Nghymru dros y 12 mis nesaf, fesul rhanbarth.

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cyfanswm Cymru), 120 (Y Gogledd) 169 (Y De-ddwyrain), 114 (Y De-orllewin), 95 (Y Canolbarth).



Nid oedd Cymru'n cymharu'n ffafriol â gwledydd datganoledig eraill y DU o ran y gyfran o fusnesau oedd yn disgwyl tyfu dros y flwyddyn nesaf, gyda chyfran uwch o lawer o fusnesau yn disgwyl aros yn sefydlog yn hytrach na thyfu (Ffigur B8.2). Ond roedd gan Gymru gyfran led debyg o BBaCh oedd yn disgwyl gweld perfformiad negyddol (crebachiad neu amodau masnachu anodd/perygl o gau).

Ar draws y gwahanol sectorau gweithgarwch busnes:

- Roedd busnesau yn y sector **adeiladu/trafnidiaeth** yn fwy tueddol o ragweld twf na sectorau eraill. Y gwrthwyneb oedd yn wir ar gyfer y sectorau primaidd (amaethyddiaeth, mwyngloddio a'r cyfleustodau). Trwy gysylltiadau ansoddol yn y gorffennol, mae rhanddeiliaid wedi nodi bod y sector adeiladu wedi cyflawni twf cadarn mewn blynyddoedd diweddar, ac o ystyried yr amcanestyniadau cyfredol a'r prosiectau sydd ar y gweill ar gyfer cwmnïau lleol, maen nhw'n disgwyl i hyn barhau yn 2024/25.
- Roedd **busnesau cyfanwerthu/adwerthu** yn fwy tebygol o ddweud eu bod nhw'n disgwyl bod yn masnachu ag anhawster/dan berygl o gau. Roedd y gwrthwyneb yn wir ar gyfer BBaCh ym maes cyllid/gwasanaethau busnes.

Ffigur B8.2

Perfformiad disgwyliedig BBaCh yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban dros y 12 mis nesaf

Maint y samplau heb eu pwysoli: 498 (Cymru), 695 (Gogledd Iwerddon), 498 (Yr Alban).



– Roedd **busnesau mwy** (yn nhermau nifer y gweithwyr/trosiant) a'r rhai a sefydlwyd llai nag 20 mlynedd yn ôl) yn fwy tebygol o ddisgwyl gweld twf. Gallai hyn fod am fod ganddynt fwy o hyder y byddant yn gallu cyrchu'r cyllid sydd ei angen arnynt ar gyfer prosiectau twf, fel yr oedd yr adran flaenorol yn ei amlinellu.

Yn gyferbyniol, mae **busnesau hŷn** (dros 40 oed) a / neu **fusnesau llai** (h.y. unig fasnachwyr, busnesau yn y bandiau isaf o ran cyflogaeth/trosiant) yn llai tebygol o ragweld twf, a'r olaf o'r rhain yn dangos tueddiad uwch o ragweld crebachiad sylweddol neu berygl o gau. Roedd hyn yn gyson ag adborth diweddar gan Ymarferwyr Ansolfedd yn ystod sgyrsiau â thîm Rhwydwaith y DU.

Crynodeb o'r Arolwg o Gyfryngwyr Cymru

Ddiwedd 2023, cynhaliodd tîm Rhwydwaith y DU Banc Busnes Prydain arolwg o gyfryngwyr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ganfyddiadau BBaCh am gyrchu cyllid yng ngwahanol Ranbarthau a Gwledydd Datganoledig y DU. Dylid nodi bod yr arolwg hwn yn ddarn gwahanol o waith i'r gwaith ymchwil a grynhowyd uchod, ac fe'i cyflawnwyd yn llwyr gan Fanc Busnes Prydain. Casglodd yr arolwg 725 o ymatebion, â 49 o'r rheiny'n cynrychioli Cymru. Mae'r ystadegau pennawd i'w gweld yn y ffeithlun (ffigur B9).[12]

Tîm Rhwydwaith y DU yw llygaid a chlustiau Banc Busnes Prydain, gan weithio gyda rhanddeiliaid a busnesau bach a chanolig (BBaCh) i ddeall a chefnogi mynediad i ecosystemau cyllid yn well a helpu busnesau bach i fod yn fwy gwybodus am eu hopsiynau cyllid.

Ffigur B9

Crynodeb o Waith Ymchwil Cyfryngwyr Cymru

Maint y samplau heb eu pwysoli: 725 (DU), 49 (Cymru).

57%

(Cyf y DU: 60%) Diffyg ymwybyddiaeth ymysg BBaCh am yr opsiynau cyllid sydd ar gael yw'r rhwystr mwyaf i'r galw o hyd

88%

(Cyf y DU: 81%) Bylchau yn y cyflenwad o gyllid ar gyfer BBaCh, dim ots ar ba gam yn eu datblygiad y maen nhw

59%

(Cyf y DU: 55%) Nid oes yna gefnogaeth ariannol ddigonol ar gyfer pobl sydd am gychwyn eu busnesau eu hunain

75%

(Cyf y DU: 75%) Nid yw BBaCh yn wybodus am ecwiti cyfnod cynnar

76%

(Cyf y DU: 75%) Nid yw BBaCh yn wybodus am gyllid amgen

69%

(Cyf y DU: 67%) o BBaCh heb eu taclu'n dda i leihau eu baich dyledion dros y 12-18 mis nesaf

Yng Nghymru, mae'r prif rwystrau i gyrchu cyllid yn gyson â chanfyddiadau'r DU, gyda 57% yn enwi diffyg ymwybyddiaeth, 39% y gallu i gyrchu cyllid, a 37% cost cyllid allanol. Diddorol yw nodi taw 10% yn unig sy'n gweld diffyg uchelgais i dyfu fel rhwystr o bwys, sy'n awgrymu bod yna ganfyddiad o ddyheadau uchel ymysg busnesau Cymru. Yn nodedig, mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yng Nghymru (88%[13]) yn cydnabod y bylchau yn y cyflenwad o gyllid allanol, sy'n gyson â tueddiadau'r DU ac adroddiadau blaenorol.

Yn ogystal, nododd yr ymatebion i'r arolwg fwlch nodedig mewn ymwybyddiaeth rhwng opsiynau cyllid dyled a rhai ecwiti/amgen[14]. Mae ein gwaith i gasglu gwybodaeth ansoddol gyda rhanddeiliaid yn nodi bod yna wahaniaethau rhanbarthol mewn agweddau at ecwiti, a gwybodaeth ynghylch mathau o gyllid amgen hefyd, gyda'r defnydd disgwyliedig yn uwch yn y De-ddwyrain a'r Gogledd. Yn yr arolwg o wybodaeth is-ranbarthol, fe welwn wahaniaethau rhanbarthol sylweddol yn y mathau o gyllid a ddefnyddir ar draws Cymru, fel diffyg defnydd o gyllid anfonebu ar draws yr holl ranbarthau, a defnydd uwch o grantiau yn y De-orllewin a'r Canolbarth. Hwyrach bod y mathau o sectorau sy'n flaenllaw ym mhob ardal yn dylanwadu ar hyn, ond gallai cynlluniau economaidd rhanbarthol ac argaeledd gwybodaeth ariannol a gwasanaethau ymgynghorol fod yn ffactor hefyd.

Y rhwystr canfyddedig mwyaf ond un i gyrchu cyllid yn ôl yr arolwg o gyfryngwyr oedd y cyflenwad. Wrth eu holi'n benodol am y cyflenwad o gyllid, roedd 88% o'r cyfryngwyr yn cytuno fod yna fylchau. Y canfyddiad oedd bod y bylchau hyn ar eu hamlycaf wrth gyrchu ecwiti cyfnod cynnar (65%) ac ecwiti cyfnod twf (56%) ond roedd cyllid dyled yn agos ar ôl y ddau yna (49%). Diddorol oedd nodi bod y wybodaeth is-genedlaethol yn cynnig safbwynt amrywiol o ran lefelau hyder ymysg BBaCh yng Nghymru yn nhermau eu gallu i gyrchu cyllid ychwanegol. Y De-orllewin yw'r mwyaf cadarnhaol, gyda 76% o fusnesau'n teimlo'n hyderus yn eu gallu i gyrchu cyllid, tra bod yna bwyll sylweddol yn y Canolbarth lle mae'r lefel isaf o hyder net â 50%. Mae'r gwahaniaethau hyn yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau busnes strategol a phwysleisio'r angen am arweiniad a gwasanaethau ariannol rhanbarthol penodol er mwyn meithrin hyder ac datblygu argaeledd cyllid ar gyfer BBaCh ar draws Cymru.

I grynhoi, mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth am opsiynau cyllid ymysg BBaCh Cymru, yn arbennig ynghylch mathau o gyllid fel cyllid ecwiti cyfnod cynnar ac amgen. Ochr yn ochr â hyn, mae yna fylchau yn y cyflenwad o gyllid, waeth ar ba gam o'i ddatblygiad y mae'r busnes, ond yn arbennig i fusnesau newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnig cyfle i Fanc Busnes Prydain lenwi'r bylchau o ran cyfathrebu a'r gwahaniaethau rhanbarthol o ran hygyrchedd trwy ein gweithgareddau rhannu gwybodaeth ac addysg barhaus, a thrwy ddefnyddio'r Gronfa Buddsoddi i Gymru a rhaglenni eraill Banc Busnes Prydain.

Diolchiadau

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn, ynghyd â'r gwaith dadansoddi cysylltiedig gan Fanc Busnes Prydain ar y cyd â Dirnad Economi Cymru. Hoffem ddiolch i'r cyd-awduron, Martina Tortis yn Nhîm Economeg Banc Busnes Prydain a Susan Nightingale a Jessica Phillips-Harris yn Nhîm Rhwydweithiau DU Banc Busnes Prydain. Estynnwn ein gwerthfawrogiad i'n partneriaid yn Dirnad Economi Cymru, gyda diolch i Siân Price. Hoffem ddiolch i Beaufort Research am gasglu'r data a ddadansoddwyd yn yr adroddiad hwn.

Atodiad 1: Y cwestiynau a ofynnwyd a'r amrywiolion a ddadansoddwyd

Tabl 2

Trosolwg a disgrifiad o amrywiolion/cwestiynau arolwg Omnibws Cymru

Enw'r amrywiolyn/Cwestiwn arolygu	Disgrifiad
C1 – A yw'ch busnes yn defnyddio unrhyw un o'r opsiynau cyllid isod ar hyn o bryd?	A oedd y busnes yn defnyddio unrhyw fathau o gyllid o blith y canlynol adeg y cyfweliad: cyllid asedau; gorddrafftiau busnes; benthyciadau Covid-19; cardiau credyd; grantiau; cyllid anfonebu; cynhyrchion benthyg eraill; dim un o'r uchod.
C2 – Pa anawsterau neu rwystrau (gwirioneddol neu ganfyddedig) ydych chi wedi dod ar eu traws wrth gyrchu cyllid, os o gwbl?	Unrhyw rwystrau i gyrchu cyllid roedd y busnes wedi dod ar eu traws; casglwyd yr atebion mewn fformat penagored, a chawsant eu codio i 22 o gategorïau wedyn.
C3 – Sut byddech chi'n disgrifio lefel gyfredol y ddyled yn eich busnes?	I ba raddau roedd y busnes yn gweld lefel eu dyled yn hydrin adeg y cyfweliad, wedi ei raddio ar sail graddfa 4 pwynt o 1 = Anhydrin iawn i 4 = Hydrin iawn. Darparwyd opsiwn arall i fusnesau oedd heb unrhyw ddyled ar y pryd ("dim dyled gan y busnes").
C4 – Ydych chi'n debygol o fod angen cyllid ychwanegol ar gyfer eich busnes o fewn y 12 mis nesaf?	A oedd y busnes yn rhagweld y byddai angen cyllid arno dros y 12 mis yn dilyn y cyfweliad, gan gynnwys amcangyfrif o gwmpas maint y cyllid (llai na £10k; £10k i£50k; £100k i £250k; £250k i £1m; mwy nag £1m).
C5 – Pa fath o gyllid ydych chi'n disgwyl ei gyrchu?	A oedd y busnes yn rhagweld y byddai'n defnyddio mathau o gyllid o blith y dewisiadau canlynol i fodloni ei anghenion cyllid ychwanegol: cyllid asedau; gorddrafftiau busnes; benthyciadau busnes; cardiau credyd; grantiau; cyllid anfonebu neu gynnyrch cyfalaf gweithio arall; arall.
C6 – Ar gyfer beth ydych chi'n bwriadu defnyddio'r cyllid yma?	A oedd y busnes yn rhagweld y byddai'n defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol a gyrchwyd at y dibenion canlynol: cyfalaf gweithio (cyflenwadau/costau gweithredol/ datblygu busnes); cyfalaf (offer/safle/meddalwedd newydd); buddsoddiad (ymchwil/gwella prosesau/cynnal-a-chadw sylweddol); ailgyllido neu reoli dyledion cyfredol; gwaith datgarboneiddio/pontio i sero net; arall.
C7 – Pa mor hyderus ydych chi y byddwch chi'n gallu cyrchu cyllid ychwanegol ar gyfer eich busnes?	Hyder yng ngallu'r busnes i gyrchu'r cyllid ychwanegol oedd ei angen, wedi ei raddio yn ôl graddfa 4 pwynt, o 1 = Ddim yn hyderus o gwbl i 4 = Hyderus iawn.
C8 – Sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich busnes yn perfformio dros y flwyddyn nesaf?	A oedd y busnes yn disgwyl i'w berfformiad dros y 12 mis yn dilyn y cyfweliad ffitio i un o'r categorïau canlynol: tyfu'n sylweddol; tyfu'n gymedrol; aros yn sefydlog; crebachu'n gymedrol; crebachu'n sylweddol; masnachu ag anhawster; dan berygl o gau.
Awdurdod Lleol	Awdurdod lleol lleoliad y busnes adeg cyflawni'r cyfweliad. Wedyn defnyddiwyd y wybodaeth yma i aseinio ymatebwyr i un o bedwar rhanbarth daearyddol yng Nghymru (Y Gogledd; Y De-ddwyrain; Y De-orllewin; Y Canolbarth), a ddisgrifir ymhellach yn y Trosolwg o Ranbarthau Cymru.
Nifer y gweithwyr	Y cwmpas ar gyfer yr holl weithwyr rhan-amser a llawn-amser sydd wedi eu cyflogi'n barhaol gan y busnes yn y lleoliad a enwir, gan gynnwys yr ymatebwr (1 gweithiwr; 2-9 gweithiwr; 10+ o weithwyr).

Tabl 2 (parhad)

Trosolwg a disgrifiad o amrywiolion/cwestiynau arolwg Omnibws Cymru

Enw'r amrywiolyn/Cwestiwn arolygu	Disgrifiad
Grŵp gweithgarwch	Prif sector gweithredu'r busnes adeg y cyfweliad, yn seiliedig ar y dosbarthiad adran SIC 2007. Cafodd yr atebion eu hagregu ymhellach wedyn i'r macro-sectorau canlynol: amaethyddiaeth, mwyngloddio a chyfleustodau (adrannau A-B-D-E SIC 2007); adeiladu/trafnidiaeth (F-H-J.61 yn unig) ; cyfanwerthu/adwerthu (G); gwestai a gwasanaethau eraill (I, J.58- 59-60yn unig, R, S.95-96 yn unig); gweithgynhyrchu (C); cyllid a gwasanaethau busnes (J. 62-63 yn unig, K, L, M, N).
Trosiant	Cwmpas trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn berthynol i leoliad y busnes a enwyd yn unig (llai na £100k; £101k i £500k; £500k+).
Pryd dechreuodd y busnes	Y cwmpas amser pan sefydlwyd y busnes, yn berthynol i amser y cyfweliad (20 mlynedd neu lai yn ôl; 20-40 mlynedd yn ôl; 40+ mlynedd yn ôl).
Strwythur y busnes	Statws cyfreithiol y busnes sy'n ymateb (unig fasnachwr; partneriaeth; cwmni cyfyngedig).
Rhyw (ymatebwr)	Rhyw yr ymatebwr (gwrywaidd; benywaidd; arall/ddim am ddweud).
Rhyw (y tîm rheoli)	Y cymysgedd o rywiau ymysg tîm Perchnogion/ Partneriaid/Cyfarwyddwyr y busnes sy'n ymateb (dynion i gyd, menywod i gyd, neu gymysg).
Grŵp ethnig	Grŵp ethnig yr ymatebwr (gwyn; grwpiau cymysg neu aml-ethnig; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Du Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig; grŵp ethnig arall).

Atodiad 2: Cafeatau methodolegol

Mae'r Arolwg Omnibws yn darparu sampl mwy o ymatebion i Gymru nag y byddai'n bosibl ei chasglu trwy arolygon DU-eang (sy'n dwyn cyfyngiadau mwy yn nhermau graddfa'r gwaith maes y gallant ei gyflawni mewn unrhyw genedl a rhanbarth unigol yn y DU). Felly, mae hyn yn darparu cyfle digynsail i ddadansoddi tirwedd cyllid BBaCh Cymru ar lefel fanwl iawn.

Er gwaethaf maint mawr y sampl, mae'r data'n dal i fod yn amodol ar amrywiaeth o gyfyngiadau.

Yn gyntaf, po fwyaf manwl yw'r dadansoddiad, po fwyaf yw'r risg o ddod i gasgliadau yn seiliedig ar faint sampl sy'n is-optimaidd. Er enghraifft, gall dadgyfuno cwestiwn â chwe opsiwn ateb ar draws pedwar rhanbarth o Gymru olygu bod 498 o ymatebion yn cael eu dadansoddi yn 24 o bwyntiau data, y gall rhai, neu bob un ohonynt gynnwys llai na deg ymateb yr un. Mae hyn yn gallu gwneud dehongli'r data ar lefel mor fanwl yn ansicr.

I hwyluso'r dehongliad felly rydyn ni'n profi ein holl gymariaethau ar draws pedwar rhanbarth Cymru am eu harwyddocâd ystadegol (gan ddefnyddio prawf Rho Spearman) ac yn rhannu'r wybodaeth yma fel y bo'n briodol ar draws y dadansoddiad. Rydyn ni'n disgrifio cymariaethau fel rhai sy'n arwyddocaol yn ystadegol pan gallwn sefydlu (â lefel resymol o hyder) bod unrhyw wahaniaethau a ganfyddir ar draws y categorïau yn sampl yr arolwg yn adlewyrchu newidiadau gwirioneddol yn y boblogaeth fusnes, yn hytrach na "thwrw" mân-ddiffygion samplo neu ffynonellau eraill o duedd yn yr arolwg. Mae hyn yn dwyn goblygiadau pwysig wrth lywio'r adroddiad. Yn benodol, gellir ystyried y siartiau sy'n delio â chanlyniadau rhanbarthol ochr yn ochr â'r sylwebaeth ategol a'r anodiad o'r data bob tro, am y bydd y rhain yn eglurhau pa wahaniaethau mewn gwerthoedd sy'n weladwy yn y siart sy'n debygol o adlewyrchu gwir wahaniaethau yn y boblogaeth o BBaCh, a pha rai sydd ddim.

Mae'r ail gyfyngiad allweddol yn ymwneud â pha mor gynrychiadol yw'r nodweddion cymdeithasol-ddemograffaidd a busnes a gesglir. Er bod yr arolwg wedi cael ei ddylunio'n ofalus i fod mor gynrychiadol â phosibl o BBaCh Cymru, gellir ond cyflawni hyn ar sail nifer gyfyngedig o nodweddion y gallwn eu cymharu'n ddibynadwy rhwng sampl yr arolwg â'r boblogaeth ehangach o BBaCh, fel maint o ran gweithwyr, lleoliad, a'r prif sector gweithgarwch. Yn gyferbyniol, nid oedd modd addasu'r crynodiad o nodweddion eraill fel rhyw a chymysgedd grwpiau ethnig yn gyson â'r boblogaeth BBaCh ehangach trwy gyflwyno cwotas pwrpasol yn nyluniad y sampl, neu trwy bwysoli'r canlyniadau yn dilyn yr arolwg. Mae ystyriaethau o ran maint y sampl a gwneud data'n ddienw yn cyfyngu ar i ba raddau y gallwn gyflwyno canlyniadau ystyrlon wedi eu dadgyfuno gan amrywiolion wrth gasglu gwybodaeth bersonol sensitif. Am y rheswm yma, yn yr adroddiad rydyn ni'n defnyddio dull detholus o weithredu o ran cyflwyno canlyniadau wedi eu dadansoddi yn ôl yr amrywiolion hyn, gan ganolbwyntio ar gwestiynau lle mae'r y data a gasglwyd yn bodloni ein safonau ansawdd (e.e. yn nhermau maint y sampl neu arwyddocâd ystadegol cydberthnasau).

Mae cafeatau a chyfyngiadau'n berthnasol i'r cymariaethau rhwng y canlyniadau o Arolwg Omnibws Cymru a'r rhai o arolygon tebyg a gyflawnwyd yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban yn rhan o'r un prosiect hefyd. Er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i gasglu data mewn ffordd gyson ar draws y gwledydd datganoledig, mae yna ambell i fân-wahaniaeth fethodolegol yn y ffordd y cafodd y gwahanol arolygon eu llunio, eu samplo a'u gweinyddu, sy'n golygu ei bod hi'n hanfodol i ddarllenwyr adolygu'r adran "methodoleg y prosiect" sydd ar ddechrau pob adroddiad. O ganlyniad, bu rhaid gweithredu â phwyll wrth gymharu canlyniadau'r tair gwlad, a chanolbwyntio ar y gwahaniaethau ehangach yn unig.

Ôl-nodiadau

1 Y Gogledd - Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, hen ranbarthau Arfon a Dwyfor.

2 Traciwr y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, 2023, Banc Busnes Prydain.

3 StatsCymru: Strwythur busnesau yng Nghymru fesul band maint a mesur. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/BusinessEconomy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/ Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizebandmeasure. (Cyrchwyd: 05/03/2024).

4 Y Canolbarth - Ceredigion, Powys, hen ranbarth Meirionnydd.

5 StatsCymru: Strwythur busnesau yng Nghymru fesul band maint a mesur. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/BusinessEconomy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/ Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizebandmeasure. (Cyrchwyd: 05/03/2024).

6 Y De-ddwyrain - Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy, Casnewydd, Merthyr, Torfaen, Bro Morgannwg.

7 StatsCymru: Strwythur busnesau yng Nghymru fesul band maint a mesur. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/BusinessEconomy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/ Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizebandmeasure. (Cyrchwyd: 05/03/2024).

8 Y De-orllewin - Abertawe, Castell Nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro.

9 StatsCymru: Strwythur busnesau yng Nghymru fesul band maint a mesur. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/BusinessEconomy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/ Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizebandmeasure. (Cyrchwyd: 05/03/2024).

10 Cyfrifwyd hyn trwy dynnu nifer yr ymatebwyr a ddewisodd naill ai ddim yn gwybod neu "dim un o'r (mathau o gyllid) uchod" yng Nghwestiwn 1 o gyfanswm yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn yna.

11 99% oherwydd talgrynnu.

12 Fel a gynhyrchwyd gan dîm Rhwydwaith y DU Banc Busnes Prydain ym mis Ionawr 2024. Casglwyd y data yn hydref 2023.

13 Cwestiwn 4: 37% cytuno'n gryf, 51% cytuno yng Nghymru, 41% cytuno'n gryf, 40% cytuno yn y DU.

14 Cwestiwn 7: 63% gwybodus iawn/gweddol wybodus am ddyled, 22% gwybodus iawn/gweddol wybodus am ecwiti cyfnod cynnar, 20% gwybodus iawn/gweddol wybodus am dwf ac ecwiti cyfnod hwyrach, 14% gwybodus iawn/gweddol wybodus am gyllid amgen.

Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales

British Business Bank

British Business Bank plc
Steel City House
West Street
Sheffield S1 2GQ

t. 0114 206 2131
e. info@british-business-bank.co.uk

british-business-bank.co.uk

Dirnad Economi Cymru
Uned J Pentref Busnes Iâl
Ellice Way
Wrecsam
LL13 7YL

e. DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

https://bancdatblygu.cymru/dirnad-economi-cymru

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2024

Banc Datblygu Cymru ccc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo i Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoli Darbodus (ARhD) nac yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru dri o is-gwmnïau sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Noder os gwelwch yn dda nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn adneuon gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc i'w gael yn www.bancdatblygu.cymru. Mae Deallusrwydd Economaidd Cymru yn rhan o Grŵp Banc Datblygu Cymru.

Cwmni cyfyngedig cyhoeddus yw British Business Bank plc. Fe'i cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru, dan y rhif cofrestru 08616013. Mae ei swyddfa gofrestredig yn Steel City House, West Street, Sheffield S1 2GQ. Banc datblygu sy'n llwyr eiddo i Lywodraeth Ei Fawrhydi yw hi. Nid sefydliadau bancio yw British Business Bank plc a'i is-gwmnïau ac nid ydynt yn gweithredu yn y modd hwnnw. Nid ydynt yn cael eu hawdurdodi na'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Gellir gweld siart strwythur cyfreithiol cyflawn y grŵp yn www.british-business-bank.co.uk.

Mae British Business Bank plc wedi gwneud pob ymdrech i ddefnyddio gwybodaeth a dadansoddiadau dibynadwy, cyfoes a chynhwysfawr, ond nid yw British Business Bank plc na'i is-gwmnïau yn ymhonni, yn benodol nac yn ymhlyg, fod unrhyw ffeithiau neu safbwyntiau a nodir yn yr adroddiad hwn yn gyflawn nac yn gywir. Dylai derbynwyr geisio eu cyngor cyfreithiol, ariannol, o ran treth, cyfrifon neu reoliadol eu hunain cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar sail y wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon. Nid cyngor buddsoddi yw'r adroddiad hwn. Nid yw British Business Bank plc a'i is-gwmnïau'n derbyn unrhyw atebolrwydd dros unrhyw golledion sy'n deillio o unrhyw gamau a gymerwyd neu na chymerwyd o ganlyniad i'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.